

1) Digwyddiad

Daeth Oedolyn F ac Oedolyn G yn gyfarwydd â'i gilydd pan ddaeth y ddau yn gleifion mewnol ar y ward Asesu Dementia Arbenigol.

Tra roedden nhw yno, roedd Oedolyn G wedi mynd â bryd Oedolyn F gan ei bod hi'n meddwl ei fod e'n gymydog iddi.

Ar 12 Mehefin 2018, cafodd Oedolyn F ei tharo ar ei thrwyn gan gyd-glaf (Oedolyn G).

Yn dilyn yr ymosodiad, cafodd Oedolyn F ei derbyn i'r ysbyty gyda gwaedu ar yr ymennydd. Roedd y prognosis cychwynnol yn wael ac roedd pryderon na fyddai Oedolyn F yn goroesi'r ymosodiad.

Roedd Oedolyn F wedi gwella ar ôl yr ymosodiad ond yn anffodus bu farw o achosion naturiol rai misoedd yn ddiweddarach mewn cartref gofal.

Cafodd Oedolyn G ei

2) Gweithredu

Mae Adolygiad Arfer Oedolion estynedig wedi'i gynnal yn unol â chanllawiau "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 3", Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Oherwydd natur y digwyddiad, cafodd ei gytuno yng nghyfarfod Grŵp Adolygu Arfer Oedolion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg bod y meini prawf wedi eu bodloni ar gyfer cynnal yr adolygiad estynedig.

Cafodd achlysur dysgu i ymarferwyr ei gynnal ar 7 Tachwedd 2019. Ei nod oedd dod â'r gweithwyr proffesiynol hynny a oedd yn ymwneud â'r achos



6) Thema ddysgu 4

Rôl y Garfan Amlddisgyblaeth

Dylai ystod eang o ymyriadau ar sail tystiolaeth fod ar gael i bob claf ar wardiau iechyd meddwl i bobl hŷn. Yn ogystal â'r buddion unigol y byddai hyn yn eu darparu, byddai hefyd yn sicrhau dull cytbwys o leihau arferion a allai cyfyngu ar y cymorth a gaiff ei ddarparu ymysg gweithwyr

3) Thema ddysgu 1

Sicrhau'r defnydd mwyaf priodol o ddeddfwriaeth ar gyfer oedolion sydd angen gofal

Wrth gymhwysu fframwaith cyfreithiol ar gyfer claf mewnol, byddai arfer gorau yn cynnwys trafodaethau gyda'r holl bartïon perthnasol sy'n ymwneud â'u gofal a'u triniaeth.

Mae angen i staff feddu ar ddealltwriaeth glir o sut a phwy sy'n gwneud atgyfeiriadau i'r Llys Gwarchod.

Rhaid gwneud atgyfeiriadau amserol at wasanaethau

4) Thema ddysgu 2

Y llwybr i gleifion rhwng wardiau Iechyd Meddwl i bobl hŷn.

Lle mae pryderon ynghylch y lleoliad priodol ar gyfer unrhyw glaf, dylid dwysáu'r rhain trwy'r broses adolygu Cynllunio Gofal a Thriniaeth.

Lle mae angen lleoliadau arbenigol mae yna brosesau sefydledig ar gyfer cyrchu'r rhain trwy baneli cyllido'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol.

Bydd ceisiadau yn seiliedig ar asesiad anghenion cyfredol.

5) Thema ddysgu 3

Rhoi gwybod a chofnodi digwyddiadau diogelu.

Mewn amgylchedd lle mae nifer fawr o ddigwyddiadau rhwng oedolion agored i niwed, mae yna risg y bydd diwylliant o oddefgarwch proffesiynol yn datblygu. Gall hyn arwain at staff yn pennu trothwy uchel ar gyfer ymddygiad heriol a diffyg o ran adrodd a chofnodi digwyddiadau difrifol

7) Camau pellach

Dyletswydd i Adrodd ar achosion

<https://www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/En/Professionals/RelatedDocuments/CwmTafMorgannwgSafeguardingBoardBulletinSummer2019.pdf>

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg